



Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru
The Voice of Community and Town Councils in Wales

Nodyn Datblygu Ymarfer 2

Practice Development Note 2

Lwfansau Aelodau: Amserlen Gamau Flynyddol

Members' Allowances: Annual Timetable of Actions

Dyddiad Cyhoeddi Mai 2024

Date Issued May 2024

Dyddiad Adolygu Hydref 2024 (neu wedi derbyn yr Adroddiad Blynyddol Drafft)

Review Date October 2024 (or on receipt of the Draft Adroddiad Blynyddol)

Mae'r wybodaeth hon yn eiddo i Un Llais Cymru trwy hawlfraint. Fe'i cynhyrchwyd ar gyfer aelodau Un Llais Cymru yn unig. Dylech gysylltu ag Un Llais Cymru os ydych yn bwriadu dosbarthu'r wybodaeth hon y tu allan i'ch Cyngor.

This information is owned by One Voice Wales under copyright. It is intended for members of One Voice Wales only. Please contact One Voice Wales if you propose circulating this information outside of your Council.

Lyn Cadwallader BA(Hons), PGDipHsg, DBA, PGDipLOPS, Chartered MCIH
Prif Weithredwr/Chief Executive www.onevoicewales.org.uk

1

**Dyddiad cyhoeddi Mai 2024
Blynyddol Drafft)**

Dyddiad Adolygu Hydref 2024 (neu wedi derbyn yr Adroddiad

Nodyn Datblygu Arfer 2 Un Llais Cymru

Lwfansau Aelodau: Amserlen Gamau Flynyddol

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
1. Cyllidebau & Praesept (Model Reoliad Ariannol 3 Un Llais Cymru)			
1.1 Paratoi'r Gyllideb Ddrafft i'w hystyried a'i chymeradwyo gan y Cyngor.	Gofalu fod y gyllideb yn gwneud darpariaeth i gyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor o dan Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. (IRPW)	Mae Adroddiad Blynyddol yr IRPW yn nodi'r taliadau, treuliau, a lwfansau ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref. Fe'u gwneir ar ffurf yr hyn a elwir yn benderfyniadau. Er na wneir penderfyniadau ar y penderfyniadau hyn tan y Flwyddyn Newydd, dylech gychwyn y broses yn gynnar i wneud yn siŵr eich bod yn cynnwys symiau priodol yn y gyllideb ddrafft.	Hydref

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
		(gweler Nodyn Datblygu Arfer 1 Un Llais Cymru)	

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
2. Yr Adroddiad Blynyddol Drafft			
2.1 Trefnu fod eich Cyngor yn ystyried yr Adroddiad Drafft.	Rhoi cyfle i Aelodau ystyried goblygiadau unrhyw gynigion i'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod.	Ar gyfer adroddiad 2024/25, cynhyrchoedd a chyhoeddodd yr IPRW adroddiad drafft ar 13 Hydref 2023 ar gyfer ymgynghoriad 8-wythnos a ddaeth i ben ar 8 Rhagfyr 2023. Cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn tan ddydd Mercher 20 Rhagfyr 2023 er mwyn rhoi mwy o amser i'r holl ymatebwyr gyflwyno adborth. Cynhaliwyd rhagor o ymarferion ymgynghori, gan gynnwys arolwg ar-lein a gweithdy i fudd-ddeiliaid.	Mis Rhagfyr fel arfer (neu'n gynt gan ddibynnu ar gyhoeddi'r adroddiad drafft)

<p>2.2 Rhoi gwybod i'r IRPW a oes gan eich cyngor unrhyw sylwadau ar y cynigion yn yr adroddiad drafft.</p>	<p>Helpu cyfrannu at yr adroddiad terfynol.</p>	<p>O fewn y cyfnod ymgynghori y cyfeiriwyd ato uchod.</p>	<p>Mis Rhagfyr fel arfer (neu'n gynt gan ddibynnu ar gyhoeddi'r adroddiad drafft)</p>
<p>2.3 Ystyried unrhyw oblygiadau cyllidebol gan fod gennych yr adroddiad drafft sy'n cynnwys symiau taliadau posib.</p>	<p>Gofalu fod y gyllideb yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau gorfodol a dewisol y Cyngor o dan Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. (IRPW)</p>	<p>Gofalu fod y gyllideb yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor, fel y'u penderfynwyd yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. (IPRW)</p>	<p>Cyn gynted ag y bo modd er mwyn cydreddeg â'ch proses ar gyfer paratoi'r gyllideb, fel y nodir yn eich rheoliadau ariannol.</p>

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
3. Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IPRW)			
<p>3.1 Mynd â'r Adroddiad Terfynol i'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniad ffurfiol.</p>	<p>Mae angen mabwysiadu rhannau o'r adroddiad yn ffurfiol, gan fod rhai o'r penderfyniadau yn ddewisol ac eraill yn orfodol. Dylech adrodd ar y cyfan fel bod yr Aelodau yn cael y darlun llawn,</p>	<p>Cyn gynted ag y derbyniwch yr Adroddiad Terfynol.</p> <p>(Ar gyfer y taliadau gorfodol nid oes angen penderfyniad, a dylai Aelodau dderbyn taliadau sy'n ddyledus iddynt heb orfod gwneud cais. Pan mae angen penderfyniad gan y cyngor, dylid gwneud hynny yn y cyfarfod cyntaf wedi derbyn yr Adroddiad Blynyddol. Gall cyngor fabwysiadu unrhyw un, neu bob un, o'r penderfyniadau nad ydynt yn orfodol, ond os yw'n gwneud penderfyniad o'r fath, mae'n rhaid iddo fod ar gyfer pob un o'i Aelodau.)</p>	<p>Y cyfarfod cyntaf wedi derbyn yr Adroddiad Blynyddol</p>
<p>3.2 Bydd angen i'ch Cyngor benderfynu pa aelodau fydd yn derbyn unrhyw</p>	<p>Sicrhau bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i sut i weithredu'r Penderfyniadau</p>	<p>Wrth ystyried 3.1 uchod.</p>	<p>Y cyfarfod cyntaf wedi derbyn yr</p>

<p>Daliadau Cyfrifoldeb Arbennig o fewn cyfyngiadau'r penderfyniadau. Dylid nodi fod rhai yn ddewisol, ac ar gyfer rhai cynghorau maent yn orfodol.</p>	<p>(darpariaethau) yn yr Adroddiad Blynyddol.</p>		<p>Adroddiad Blynyddol</p>
<p>3.3 Rhaid i bob Cyngor wneud a chofnodi (yn y cofnodion) benderfyniad polisi ar gyfer pob un o'r penderfyniadau dewisol, pryd a sut gaiff y taliadau eu gwneud ac a ydynt yn cael eu talu'n fisol, blynyddol, neu fel arall. Dylai'r polisi ddatgan hefyd a ddylid, ac os felly sut, y byddant yn hawlio'n ôl unrhyw daliadau a wneir i unrhyw Aelod sy'n gadael neu'n newid eu rôl yn ystod y flwyddyn ariannol.</p>	<p>Cydymffurfio â'r darpariaethau yn yr Adroddiad Blynyddol.</p>	<p>Wrth ystyried 3.1 uchod.</p>	<p>Dylid gwneud y penderfyniadau hyn yn y cyfarfod cyffredin cyntaf wedi cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol.</p>

<p>3.4 ON: Ni all Aelodau sy'n derbyn uwch gyflog Band 1 neu Fand 2 oddi wrth Brif Gyngor (hynny yw Arweinydd, Dirprwy Arweinydd, neu Aelod Gweithredol) dderbyn unrhyw daliad gan unrhyw Gyngor Cymuned neu Dref ac eithrio treuliau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol.</p>	<p>Mae hon yn ddarpariaeth hirsefydlog sy'n dal yn berthnasol. Mae adroddiadau diweddar wedi cyfeirio darllenwyr at adroddiad blaenorol felly gallech fod wedi peidio sylwi arno.</p>	<p>Gwiriwch hyn bob blwyddyn.</p>	<p>Hydref (wrth feddwl am gyllidebau)</p>
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------	-------------------------------------------

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
4. Gweithredu unwaith y cytunir y taliadau.			
4.1 Rhowch wybod i'ch Aelodau beth fyddant yn ei dderbyn a beth i'w wneud os nad ydynt am eu derbyn. Esboniwch y rheolau ar dreth a gweithio gartref.	Gweithredu penderfyniad y Cyngor	Cyn gynted ag y bo modd ar ôl 3.1 uchod.	Cyn gynted ag y bo modd ar ôl 3.1 uchod.

Gweithred	Pwrpas	Cyfnod Amser	Amserlen fras
5. Gofynion Adrodd			
5.1 Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi erbyn 30 Medi		Erbyn 30 Medi.	Erbyn 30 Medi.

<p>bob blwyddyn fanylion taliadau unigol a wnaed i'w Aelodau yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Rhaid cyhoeddi'r rhain (ar-lein ac ar eich hysbysfwrdd). Nid oes ond rhaid cyhoeddi ad-daliadau costau gofal yn un swm cyffredinol heb enwi unigolion a'u derbyniodd. Hefyd, o 2024, gellir adrodd ar y taliadau sylfaenol (£156 a £52) a hawliadau teithio a chynhaliaeth, yn un swm cyffredinol.</p> <p>Felly, rhaid cyhoeddi unrhyw daliadau a wneir yn (dyweder) 2023/24 erbyn 30 Medi 2024</p>	<p>Cydymffurfio â'r gofynion adrodd a gyflwynir gan yr IRPW.</p>	<p>O flwyddyn 2024/25 bydd angen datganiadau blynyddol o hyd ond gellir eu gwneud yn anhysbys.</p>	
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------	--

<i>(Fel arfer mae'r IPRW yn darparu templed datganiad i'w ddefnyddio gan glerc.)</i>			
--------------------------------------------------------------------------------------	--	--	--

Rhai syniadau defnyddiol:

- Dechreuwch feddwl am lwfansau blwyddyn nesaf yn gynnar – holwch yr Aelodau ynghylch pa lefel o wariant maen nhw am ei gweld; beth yw'r heriau y byddwch yn eu hwynebu'r flwyddyn nesaf; ewch ag ef drwy'r pwyllgorau.
- I gymaint graddau ag y gallwch, cynhwyswch ddarpariaeth briodol yng nghyllideb y flwyddyn nesaf ar gyfer y taliadau hyn.
- Os yw Aelodau eisiau derbyn unrhyw un o'r lwfansau a ddisgrifiwyd, mae ganddynt berffaith hawl i wneud hynny. Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i beidio cymryd y taliadau hyn fod yn ddewis personol ac unigol.
- Nid oes gan gynghorwyr hawl i ofyn i'r Clerc gyfrannu eu taliad yn uniongyrchol i fudiad gwirfoddol neu elusennol yn hytrach na'i dderbyn eu hunain.
- Cadwch olwg am yr adroddiad drafft ar ddiwedd yr Hydref. Dylech ei gynnwys mewn agenda drafft i wneud yn siwr eich bod yn barod pan ddaw'r amser.
- Mae'r Panel yn parhau i awdurdodi taliadau ar gyfer costau ychwanegol gweithio gartref a thaliadau ar gyfer nwyddau traul swyddfa. Nid oes unrhyw newid i'r penderfyniad a wnaed y llynedd. (Mae angen felly ichi wirio adroddiad y llynedd.)
- Mae'r taliad o £156 yn dod o fewn diffiniad yr HMRC o drefniadau "gweithio gartref" ac o'r herwydd ni fydd angen talu PAYE arnynt. Felly, dylai Aelodau gadarnhau eu bod yn gweithio gartref yn rheolaidd yn rhinwedd eu swydd yn Aelod o'r Cyngor ac

10

nad ydynt eisoes yn hawlio lwfans treth am dreuliau gweithio gartref ar gyfer ffynhonnell incwm arall. Mae'r IRPW wedi paratoi templed llythyr i gynorthwyo gyda hyn. Os yw Aelod eisoes yn derbyn £6 yr wythnos ar gyfer lwfans gweithio gartref neu'n hawlio'r swm yn erbyn eu henillion trethadwy o ffynhonnell arall, efallai y caiff yr £156 ei dalu iddynt o hyd ond bydd yn drethadwy a bydd angen ei brosesu trwy PAYE

- Cafwyd newidiadau i'r lwfansau yn ddiweddar ac erbyn hyn nid yw rhai ohonynt yn drethadwy (gweler y tabl isod). Os yw Aelod yn dymuno hawlio didyniad treth o daliadau i gynghorwyr yn y gorffennol, dylent gysylltu â'r HMRC.
- Gwiriwch nad yw'r un o'ch Aelodau hefyd yn Arweinydd, Dirprwy Arweinydd, neu Aelod Gweithredol, oherwydd os ydynt ni allant dderbyn unrhyw daliad gan eich Cyngor chi ac eithrio treuliau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol.
- Ar gyfer yr holl daliadau, gall unrhyw Aelod benderfynu peidio derbyn y lwfans os dymunant. Dylent roi gwybod i'r Clerc yn ysgrifenedig os mai dyna yw eu dymuniad. Mae templed a gynhyrchwyd gan Un Llais Cymru yn atodedig.
- Dylech ofalu fod anghenion datblygu'r Cyngor a chadeiryddion pwyllgorau ac ati yn cael sylw yn eich cynllun hyfforddiant statudol. Mae'n bwysig fod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gyflawni unrhyw rolau sy'n denu lwfans cyfrifoldeb arbennig neu unrhyw lwfans arall.

Penderfyniadau sy'n effeithio cynghorau cymuned a thref (t20 Adroddiad Blynyddol yr IRPW)				
Mater	Swm	Gorfodol neu Ddewisol	A oes angen penderfyniad gan y Cyngor?	Trethadwy? Talu trwy PAYE?
Taliad Costau Ychwanegol	£156	GORFODOL	NA ond argymhellir eich bod yn adrodd arno er gwybodaeth.	NA
Maer neu Gadeirydd	Hyd at £1500	DEWISOL	IE	IE (Mae Adroddiadau blaenorol yr IRPW yn cyfeirio at y "Gyllideb Ddinesig." Nid yw penderfyniadau ariannu ar gyfer y cyllidebau dinesig

				hyn yn faterion o gydnabyddiaeth ariannol bersonol i ddeiliad y swydd; maent yn ymwneud yn hytrach â'r cyllid sydd ei angen ar gyfer y tasgau a dyletswyddau y bydd angen eu cyflawni. Mae gan gynghorau ryddid o hyd i bennu cyllidebau dinesig ar ba lefelau bynnag maen nhw'n eu hystyried yn briodol ar gyfer y lefelau o arweinyddiaeth ddinesig sydd ganddynt.)
	Hyd at £500	DEWISOL	IE	IE

Dirprwy Faer neu Gadeirydd				
Rôl Uwch (e.e. cadeirydd pwyllgor)	Mae'n amrywio yn ôl faint o etholwyr sydd gan eich cyngor.	Mae'n amrywio yn ôl faint o etholwyr sydd gan eich cyngor.	IE	IE
Lwfans Gweini	Dibynnu ar hawliadau	DEWISOL	IE	IE
Colled ariannol	Dibynnu ar hawliadau	DEWISOL	IE	IE
Teithio a Chynhaliaeth	Dibynnu ar hawliadau	DEWISOL	IE	IE
Costau Gofal neu Gymorth Personol	Dibynnu ar hawliadau	GORFODOL	NA ond argymhellir eich bod yn adrodd arno er gwybodaeth fel bod yr Aelodau yn gweld y darlun llawn.	IE

			Nid oes angen enwi hawlwyf posib.	
--	--	--	-----------------------------------	--